

Ysgol Gynradd Beaumaris
Maeshyfryd
Biwmares
LL58 8HL

22/10/2026

Annwyl arweinwyr a staff

Ymweliad Interim: Hydref 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Biwmares yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag argymhelliad o'r ymweliad monitro diwethaf yn ogystal ag un o flaenoriaethau datblygu cyfredol yr ysgol. Manteisiodd y tîm ar y cyfle i arsylwi ar addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, craffu ar ddogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

Ffocws yr ymweliad

Cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

- Mae gan y pennaeth gweledigaeth glir ar gyfer ymateb i'r argymhelliad ac mae'n arwain y gwaith hwn yn bwrpasol.
- Mae'r pennaeth wedi darparu cyfleoedd buddiol i athrawon gydweithio ag ysgolion y clwstwr i graffu ar waith disgyblion a rhannu arfer effeithiol. Mae hyn yn cryfhau dealltwriaeth athrawon o ddulliau addysgu effeithiol a sut i gynllunio cyfleoedd perthnasol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau rhifedd mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.
- Mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion. Maent yn cynllunio'n briodol i sicrhau bod y ddarpariaeth yn ystyried ystod addas o fedrau mathemategol. Mae'r pennaeth yn ymwybodol o'r angen i ddarparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.
- At ei gilydd, mae staff yn sicrhau amgylchedd addas ar gyfer datblygu medrau rhifedd. Maent yn darparu ystod eang o adnoddau a chyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a defnyddio eu medrau'n gynyddol annibynnol ochr yn ochr â sesiynau mwy strwythuredig.

- Yn gyffredinol, mae disgyblion yn datblygu medrau rhifedd priodol mewn sesiynau mathemateg a gweithgareddau dysgu. Maent yn dechrau cymhwyso'r medrau yn briodol ar draws y cwricwlwm, mewn amrywiaeth o gyd-destunau diddorol.

Cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm

- Mae arweinwyr ac athrawon yn rhoi sylw priodol i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion ac yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd iddynt gymhwyso'r medrau hyn mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.
- Mae athrawon yn elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol, gan gynnwys mynychu hyfforddiant pwrpasol. Mae hyn yn cryfhau eu dealltwriaeth o sut i gynllunio cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau llythrennedd, gan gynnwys eu medrau ysgrifennu.
- Mae'r athrawon yn canolbwyntio'n fwriadus ar ddatblygu medrau llafaredd disgyblion fel sail i'w hysgrifennu. Yn nosbarth y disgyblion ieuengaf, mae staff yn defnyddio ystod o strategaethau, gan gynnwys rhigymau cyfarwydd a chwarae rôl, i ddatblygu geirfa disgyblion a'u defnydd o batrymau iaith yn llwyddiannus.
- Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r disgyblion hynaf yn ysgrifennu i safon briodol mewn ystod eang o ffurfiau. Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd bwriadus iddynt greu darnau ysgrifenedig amrywiol sy'n adeiladu eu medrau dros amser. Mae hyn yn caniatáu i'r disgyblion ddatblygu hyder wrth fynegi eu hunain mewn cyd-destunau gwahanol ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.
- Mae athrawon yn arfarnu cynnydd yn erbyn yr argymhelliad yn rheolaidd. Maent yn craffu ar waith disgyblion ochr yn ochr ag aelodau'r corff llywodraethol. Mae'r trefniadau hyn, ynghyd â chymorth swyddogion yr awdurdod lleol, yn cefnogi arweinwyr i adnabod cryfderau, a'r agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach, wrth gynllunio cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm.

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:

<http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6602131>

Yn gywir



Liz Miles

Cyfarwyddwr Cynorthwyol

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.